**Cofnodion heb eu Cadarnhau**
**o Gyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**26 Awst 2025, 15:30 – 16:00**
**Cynhaliwyd yn Capital Quarter 2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Clare Jenkins | (CJ) | Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Olusola Okhiria | (OO) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Sophie Fuller | (SF) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol a Chymorth Busnes, Gweithrediaeth y GIG |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Angela Williams | (AW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 15:30* | | |

| **Rhan A** | |
|---|---|
| **QSIC 2025.08.26/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |
| Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.<br><br>Gan nodi newidiadau diweddar i aelodaeth y Pwyllgor, fe wnaeth CJ groesawu NE i'r cyfarfod a chydnabod a diolch i Kate Young yn ei habsenoldeb am ei chefnogaeth a'i chyfraniadau blaenorol i'r Pwyllgor. | |

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2025.08.26/2** | **Datganiad o Fuddiant** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2025.08.26/3** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **QSIC 2025.08.26/3.1** | **Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2024/25** |

Cyflwynodd CB adroddiad blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd, gan ddiolch i bawb ar draws y Sefydliad am eu hymrwymiad a'u cyfraniad at ddatblygu'r adroddiad, a ddatblygwyd i fodloni gofynion y Ddyletswydd Ansawdd. Nod yr adroddiad oedd dathlu cyflawniadau'r Sefydliad o fewn safonau gofal iechyd a nodi meysydd sydd angen gwaith a gwelliant pellach. Daeth CB â'r cyflwyniad i ben drwy ddiolch i AC, ei thîm a Hilary Wilderspin am eu cefnogaeth wrth lunio'r adroddiad.

Aeth AC ymlaen i roi trosolwg o strwythur yr adroddiadau, a oedd yn canolbwyntio ar y 12 safon ansawdd, ac amlinellodd wybodaeth gefndirol, y sefyllfa bresennol, cyfraniadau gwasanaeth, a'r camau nesaf. Nod yr adroddiad oedd arddangos gwaith sy'n mynd yn ei flaen ers y llynedd a mentrau newydd a gychwynnwyd eleni, gan grynhoi yr uchelgeisiau a'r cyflawniadau ar gyfer y 12 mis diwethaf.

Aeth CB ymlaen i ofyn am adborth a chymeradwyaeth y Pwyllgor ar yr adroddiad, gan nodi'r bwriad i gyfieithu a chyhoeddi'r adroddiad blynyddol fel dogfen ar gyfer cleifion a'r cyhoedd a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Diolch i CB ac AC am gyflwyno'r adroddiad.
- Croesawodd NE y cyfle i ddychwelyd i'r Pwyllgor a chanmolodd ansawdd yr adroddiad.
- Holodd NE pam y soniwyd am yr Uned Perfformiad a Gwella (P&I) ar ei phen ei hun a heb gyfeiriad atynt yn unman arall. Dywedodd CB fod yr Uned Perfformiad a Gwella yn arfer cael ei hadnabod fel Gweithrediaeth y GIG a chytunodd i gyfeirio at hyn drwy gydol yr adroddiad. Eglurodd CB hefyd nad oedd unrhyw ofyniad i'r Uned Perfformiad a Gwell gynhyrchu ei hadroddiad ei hun.
- Darparodd NE nifer o sylwadau manwl am yr adroddiad, gan gynnwys: cynllun gweledol yr adran gweithlu; yr angen i fesur gwelliannau'n gyson a rhoi cyd-destun ystadegau o fewn y meysydd risg a'r meysydd Gwasanaeth Diogelu Iechyd a Sgrinio; y geiriad ynghylch amseroedd aros; y cyd-destun ar gyfer rhannu delweddau digidol a Deallusrwydd Artiffisial; y dystiolaeth ar gyfer enillion Y 1000 Diwrnod Cyntaf; a'r angen am gyd-destun poblogaeth yn niferoedd y brechlyn MMR.
- Diolchodd CB i NE am ei adborth ar gynllun yr adroddiadau a chyflwyniad y data a chytunodd i adolygu a chryfhau'r data gwella, egluro'r geiriad ynghylch amseroedd aros ac ychwanegu rhagor o fanylion ynghylch deallusrwydd artiffisial a rhannu/Llywodraethu Gwybodaeth priodol.

Unconfirmed

- Gan fynd i'r afael â'r pwyntiau eraill a godwyd, cytunodd CB i drafod gyda MK ynghylch y meysydd Gwasanaeth Diogelu Iechyd a Sgrinio a godwyd, a chyda JM i fynd i'r afael â'r sail dystiolaeth am Y 1000 Diwrnod Cyntaf.
- Gan ymateb yn benodol i gwestiwn NE ynghylch a oedd effaith fesuradwy o leihau'r system atal rhag methiant i 11 diwrnod o fewn sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig, cynghorodd MK fod y rhesymeg yn glir yn yr adran gefndir ac efallai na fydd yr effaith wirioneddol yn ddangosadwy oherwydd y niferoedd bach dan sylw.
- Diolchodd TC i NE am ei sylwadau a'i adborth defnyddiol, a mynegodd werthfawrogiad i CB, AC a'r tîm, yn ogystal â phawb a oedd yn rhan o'r broses, gan bwysleisio bod yr adroddiad yn teimlo hyd yn oed yn fwy personol i bobl eleni gan eu bod yn cynnwys hanes a naratif y Sefydliad a bod yr adroddiad yn tynnu sylw at led ac ansawdd gwaith y Sefydliad.

Mynegodd y Cadeirydd gefnogaeth gref i'r adroddiad, gan bwysleisio bod yr adroddiad yn gweithredu fel "ffenestr flaen" i'r sefydliad, gan arddangos cyflawniadau a lefel gadarn o sicrwydd o sut mae ansawdd yn cael ei reoli a'i fesur.

**Cymeradwyodd** y pwyllgor yr adroddiad ansawdd blynyddol drafft, yn amodol ar fod CB yn adolygu ac yn ymdrin â'r adborth a'r awgrymiadau penodol a godwyd yn ystod y cyfarfod gyda'r timau ehangach perthnasol.

| **QSIC 2025.08.26/4** | **Camau dod â'r cyfarfod i ben** |
|---|---|
| **QSIC 2025.08.26/4.1** | **Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Dyddiad y cyfarfod nesaf: 29 Medi 2025<br><br>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben. | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 15:50* | |

Unconfirmed